# CYNGOR CAERDYDD

## Cyflwyno Cwynion
## Y Ddeddf Drwyddedu 2003

**Pethau i gadw llygad allan amdanynt**
O dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, gellir cyflwyno cwynion ynghylch ceisiadau ar gyfer

- Trwydded i adeilad newydd
- Amrywiad i drwydded adeilad cyfredol
- Tystysgrif i adeilad clwb newydd
- Amrywiad i dystysgrif adeilad clwb cyfredol

Wrth wneud cais am drwydded newydd, neu amrywio un cyfredol (er enghraifft cynnwys gweithgareddau ychwanegol neu estyn oriau), rhaid iddynt hysbysu'r cais trwy wneud y canlynol:

**Gosod hysbysiad ar yr adeilad**

- Ar bapur glas golau A4 (neu fwy).
- Wedi'i brintio mewn inc du neu wedi'i deipio mewn ffont o faint 16 o leiaf.
- Wedi'i osod yn **amlwg** yn yr adeilad, lle gellir ei ddarllen yn **gyfleus** o **du allan** i'r adeilad.
- Wedi'i osod bob 50 metr ar berimedr allanol yr adeilad sy'n ffinio â phriffordd (lle bo'n briodol).

**Gosod hysbysiad mewn papur newydd**

- Rhaid i gylchrediad y papur newydd fod yng nghyffiniau'r adeilad (os nad oes papur lleol, mewn cylchlythyr lleol).
- Dylid gosod yr hysbysiad o leiaf unwaith yn y 10 diwrnod wedi i'r cais gael ei gyflwyno i'r awdurdod trwyddedu.

Gellir gweld manylion llawn ar gyfer gwneud cais ar "gofrestr trwyddedu" yr awdurdod drwyddedu. Mae crynodeb hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod www.caerdydd.gov.uk. Gellir defnyddio'r gofrestr i weld oriau agor pob safle; gweithgareddau trwyddedig ac unrhyw gamau mae'r ymgeisydd wedi'u gwirfoddoli i'w cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

Y pedwar amcan trwyddedu yw:

- Rhwystro trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; ac
- Amddiffyn plant rhag niwed.

Os bydd parti â diddordeb yn poeni fod caniatáu trwydded yn y termau yr ymgeisir amdano yn debygol o effeithio ar hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion hyn, mae ganddynt 28 niwrnod olynol gan gychwyn ar y diwrnod wedi diwrnod cyflwyno'r cais i'r awdurdod perthnasol i gyflwyno cwyn ger bron yr awdurdod hwnnw.

## Pryd ellir cyflwyno cwyn?

Rhaid i bob cwyn ymwneud ag effaith tebygol caniatáu trwydded neu dystysgrif ar hyrwyddo o leiaf un o'r pedwar amcan trwyddedu. Felly, byddai'n ddoeth cysylltu unrhyw gŵyn yn eglur ag un neu fwy o'r amcanion.

Byddai o fudd hefyd pe bai'r cwynion ynghylch yr adeilad penodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Efallai yr hoffai partïon â diddordeb felly siarad â'r heddlu lleol cyn hynny, neu gadw cofnod o broblemau, er enghraifft, cadw dyddiadur neu dystiolaeth ffotograffig o unrhyw achosion. Bydd yn rhaid i awdurdodau trwyddedu fod yn fodlon fod cysylltiad tystiolaethol ac achosol rhwng y cwynion a gyflwynir, a'r effaith ar yr amcanion trwyddedu.

Hefyd, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried cwynion nad ydynt yn "drallodus" nac yn "wamal" yn unig.

## Pwy all gyflwyno cwyn?

| Awdurdodau Cyfrifol | Partïon â diddordeb |
|---|---|
| **Yr Heddlu**<br>**Tân ac Achub**<br>**Awdurdod Cynllunio Lleol**<br>**Asiantaeth orfodi iechyd a diogelwch**<br>**Asiantaeth orfodi ar gyfer pwysau a mesurau**<br>**Asiantaeth Amddiffyn Plant** | **Trigolion yn byw yn y cyffiniau**<br>**Rhai sy'n cynrychioli trigolion sy'n byw yn y cyffiniau**<br>**Busnesau yn y cyffiniau**<br>**Rhai sy'n cynrychioli busnesau yn y cyffiniau** |

## Sut gellir cyflwyno cwyn?

Rhaid i chi gyflwyno eich cwyn yn ysgrifenedig a'i anfon yn ystod y cyfnod cwynion. Rhaid iddo fod yn berthnasol i un neu fwy o'r pedwar amcan trwyddedu. Dywed y ddeddf na all cwynion fod yn "wamal, trallodus nac ailadroddus".

Mae'r Awdurdod Drwyddedu yn argymell i chi gyflwyno eich cwyn gan ddefnyddio'r ffurflen ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellir argraffu'r ffurflen, ei llenwi a'i dychwelyd i'r Awdurdod Trwyddedu, Cyngor Caerdydd, Ystafell 170A, Neuadd yr Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW. Neu gallwch e-bostio'ch cwyn i trwyddedu@caerdydd.gov.uk neu anfonwch lythyr cyffredin at y cyfeiriad uchod.

## Cyflwyno cwynion yn ddienw

Ni allwch gyflwyno cwyn yn ddienw. Oherwydd mae'n rhaid i'r Awdurdod Drwyddedu allu penderfynu a ydych yn byw neu'n gweithredu busnes yng nghyffiniau'r adeiladu o dan sylw. Rhaid i'r Awdurdod Drwyddedu roi holl fanylion pob cwyn i'r ymgeisydd. Ond,

gallwch ofyn i'ch cynghorydd lleol osod cwyn ger bron ar eich rhan chi. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gofyn am eich manylion gan y cynghorydd (er mwyn bodloni bod gennych hawl i wneud sylwadau ar y cais), ond ni fyddant yn trosglwyddo'ch manylion i'r ymgeisydd.

## Deisebau

Bydd unrhyw ddeiseb a dderbynnir yn cael ei drin fel un gŵyn gan y person sy'n ei hanfon, â chefnogaeth y llofnodwyr eraill. NI FYDD deisebau yn cael eu trin fel cwynion unigol gan bawb sydd wedi llofnodi.

## Rhai pethau i'w hystyried wrth gyflwyno cwyn

- ***Os na chyflwynir cwynion perthnasol, bydd yn rhaid caniatáu'r drwydded neu'r amrywiad (yn amodol ar yr amodau gorfodol).***
- Gall fod o fudd cael cefnogaeth pobl eraill sy'n byw, neu'n gweithredu busnesau yn y cyffiniau, neu "awdurdodau cyfrifol" eraill, fel yr heddlu neu iechyd yr amgylchedd.
- Edrychwch ar gofnodion swyddogol eich awdurdod am yr adeilad, sydd yn eu "Cofrestr drwyddedu". Gallwch weld a yw eraill wedi cyflwyno cwynion neu wedi gofyn am adolygu'r adeilad yn y gorffennol.
- Os ydych yn ystyried cychwyn deiseb, mae'n bwysig sicrhau y gall yr awdurdod drwyddedu benderfynu a yw pob llofnodydd o fewn cyffiniau'r adeilad. Felly, byddai cynnwys eu cyfeiriadau a nodi'n glir pa gwynion mae pob un ohonynt yn eu cyflwyno o fudd. Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai llefarydd yn gallu gwirfoddoli i dderbyn manylion y gwrandawiadau ayb. gan yr awdurdod trwyddedu, a siarad ar ran y deisebwyr yn y gwrandawiad.
- Os hoffech ofyn i rywun arall fel AS neu AC neu Gynghorydd lleol eich cynrychioli, byddwn yn awgrymu i chi wneud cais ysgrifenedig er mwyn iddo ef/hi allu dangos fod rhywun wedi gofyn iddynt. Mater i'r AS/AC/Cynghorydd fydd penderfynu a ydynt yn cytuno â'ch cais. Nid oes rheidrwydd arnynt i wneud, ond mae'r rhan fwyaf o gynrychiolwyr etholedig yn falch o helpu preswylwyr gyda'r math hwn o fater, a does dim angen iddynt fyw yng nghyffiniau'r adeilad o dan sylw i gynrychioli preswylwyr sydd yn byw yng nghyffiniau'r adeilad. Ni fydd cynghorwyr sy'n rhan o'r pwyllgor trwyddedu sy'n gwrando ar y cais yn gallu trafod y cais gyda chi tu allan i'r gwrandawiad ffurfiol, felly byddwn yn awgrymu i chi beidio â cheisio gwneud hynny.
- Ystyriwch sut hoffech gywiro'r sefyllfa.

## Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno cwyn?

Os cyflwynir mwy nag un gŵyn, ac nad oes cytundeb yna bydd gwrandawiad cyhoeddus i benderfynu beth i'w wneud. Yn y gwrandawiad, bydd tri aelod o Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor yn ystyried manylion y cais a'r cwynion a gyflwynir ger eu bron.

Bydd yr ymgeisydd a'r rheini sydd wedi cyflwyno cwynion o fewn y cyfnod ymgynghori yn cael eu gwahodd i'r gwrandawiad a byddant yn gallu siarad a gofyn cwestiynau cyn i'r cynghorwyr ddod i benderfyniad. Gall y cynghorwyr benderfynu caniatáu'r drwydded fel yr

ymgeisiwyd amdani, caniatáu trwydded ag oriau diwygiedig neu amodau ychwanegol, neu wrthod y cais yn gyfan gwbl.

## Beth alla i wneud os bydd problemau wedi i'r drwydded gael ei chaniatáu?

Mae'r Ddeddf Drwyddedu 2003 yn rhoi'r hawl i Awdurdodau Cyfrifol a Phartïon â Diddordeb ofyn am adolygu'r drwydded adeilad neu dystysgrif adeilad clwb cyfredol. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Drwyddedu gyhoeddi'r ceisiadau hyn, a bydd cyfnod o 28 diwrnod gyflwyno cwyn. Yna bydd gwrandawiad cyhoeddus fel y nodir uchod. Bydd gan y cynghorwyr nifer o opsiynau o adael y drwydded heb ei newid i dynnu'r drwydded yn gyfan gwbl.

## Rhagor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ar bob agwedd o'r Ddeddf Drwyddedu, cysylltwch â:

Yr Awdurdod Drwyddedu, Cyngor Caerdydd,
Ystafell 170A, Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd, CF10 4UW
Gwefan : **www.caerdydd.gov.uk**
Ffôn: 029 2087 1651. E-bost: Licensing@caerdydd.gov.uk

**CYNGOR CAERDYDD**

**Ffurflen Cyflwyno Cwyn**

Deddf Drwyddedu 2003 – Cyflwyno Cwyn mewn perthynas â Ceisiadau am Drwydded Adeilad

| **Manylion person neu gorff sy'n cyflwyno cwyn** | | |
|---|---|---|
| Eich Enw: | | |
| Eich Cyfeiriad: | | |
| Rhif Ffôn: | | E-bost: |

| **Manylion yr adeilad y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef** | |
|---|---|
| Enw'r Adeilad: | |
| Cyfeiriad yr Adeilad: | |
| Rhif y cais (os ydych yn gwybod) | |

| **Ticiwch un neu fwy o'r amcanion trwyddedu y mae eich cwyn yn berthnasol iddynt:** | |
|---|---|
| Atal trosedd ac anrhefn | ☐ ie |
| Diogelwch y Cyhoedd | ☐ ie |
| Atal niwsans cyhoeddus | ☐ ie |
| Amddiffyn plant rhag niwed | ☐ ie |

| **Rhowch grynodeb o'ch pryderon am y cais hwn:** |
|---|
| |

| **Rhowch fanylion pellach ynglŷn â <u>pham</u> ydych chi'n credu bydd y cais hwn yn cael effaith anffafriol ar yr amcanion trwyddedu** |
| --- |
| |

**Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi i:**

Yn y post:

Adran Drwyddedu
Cyngor Caerdydd
Ystafell 161
Neuadd y Ddinas
Caerdydd, CF10 3ND

Trwy e-bost:

licensing@cardiff.gov.uk